

**SIR GAERFYRDDIN**  
**CYNLLUN DATBLYGU LLEOL DIWYGIEDIG (2018-2033)**  
**ARCHWILIAD**

---

**NODIADAU CYFARWYDDYD I GYFRANOGWYR**

**Arolygwyr: Nicola Gulley MA MRTPI ac Ian Stevens BA (Anrh) MCD MRTPI**

**1 RHAGARWEINIAD**

- 1.1 Rydym wedi cael ein penodi gan Weinidogion Llywodraeth Cymru i gynnal archwiliad annibynnol o gadernid a chydymffurfiaeth gyfreithiol Cynllun Datblygu Lleol Newydd Sir Gaerfyrddin (y 'Cynllun'). Mae'r nodyn hwn yn rhoi arweiniad i gyfranogwyr ar y trefniadau gweithdrefnol a gweinyddol ar gyfer yr archwiliad a'r gwrandawiadau.
- 1.2 Cynhelir y gwrandawiadau ar ffurf rithwir a byddant yn dechrau am **10:00am ar 15 Hydref 2024**.
- 1.3 Mae rhaglen ddrafft ar gyfer y sesiynau gwrandawriad gyda rhestr o gyfranogwyr posibl ar gyfer pob sesiwn wedi'i chyhoeddi ar wefan yr Archwiliad. Fersiwn gychwynnol yw hon ac mae'r manylion yn debygol o newid. **Bydd y rhaglen derfynol, rhestr bendant o gyfranogwyr y gwrandawriad a rhestr fanwl o faterion a chwestiynau yn cael eu cyhoeddi ar neu cyn 23 Awst 2024.**

**2 SWYDDOG RHAGLEN**

- 2.1 Corinne Sloley yw'r Swyddog Rhaglen a hi sy'n gyfrifol am weinyddu'r archwiliad. Mae hi'n gweithredu'n annibynnol ar y Cyngor ac yn gweithio o dan fy nghyfarwyddyd. Mae rôl Corinne yn cynnwys cysylltu â phob parti i sicrhau bod yr archwiliad yn rhedeg yn ddidrafferth, sicrhau bod dogfennau'r archwiliad, y wefan a'r llyfrgell ar gael a gweithredu fel y prif bwynt cyswllt ar gyfer yr holl faterion gweithdrefnol a gweinyddol. Ei manylion cyswllt yw:

**E-bost:** [LDPExamination@sirgar.gov.uk](mailto:LDPExamination@sirgar.gov.uk)

**Ffôn:** 01267 228624

**Cyfeiriad post:**

At sylw Corinne Sloley  
Lle a Seilwaith  
3 Heol Spilman  
Caerfyrddin  
Sir Gaerfyrddin  
SA31 1LE

### 3 GWEFAN YR ARCHWILIAD

- 3.1 Mae copïau o holl ddogfennau'r archwiliad ar gael i'w gweld ar y rhyngrwyd trwy gyfrwng tudalennau gwe Llyfrgell yr Archwiliad.
- 3.2 Mae Llyfrgell yr Archwiliad yn cynnwys y Dogfennau Cyflwyno, sy'n cynnwys sylfaen dystiolaeth y Cyngor a dogfennau ategol [CSD]; a Dogfennau'r Archwiliad [ED].
- 3.3 Bydd tudalennau gwe sesiynau gwrandawriad ar gyfer pob gwrandawriad, sy'n nodi manylion y cyfranogwyr ac unrhyw ddogfennau perthnasol, yn cael eu hychwanegu at wefan yr archwiliad maes o law.
- 3.4 Mae'r Cyngor yn darparu mynediad drwy'r rhyngrwyd i wefan yr Archwiliad yn Llyfrgelloedd y Cyngor.
- 3.5 Dylai unrhyw un sy'n cymryd rhan yn y gwrandawriad nad yw'n gallu cael mynediad i'r rhyngrwyd gysylltu â'r Swyddog Rhaglen fel bod modd rhoi trefniadau amgen ar waith er mwyn gallu gweld y dogfennau.

### 4. CWMPAS YR ARCHWILIAD A RÔL YR AROLYGYDD

- 4.1. Ymgynghorodd y Cyngor ar yr 2<sup>il</sup> CDLI Drafft Adneuo rhwng 17 Chwefror 2023 a 14 Ebrill 2023. Nid oedd y Cynllun yn destun unrhyw Newidiadau Penodol felly'r CDLI Drafft Adneuo fydd y Cynllun y byddaf yn ei archwilio.
- 4.2 Ein rôl ni yw asesu a yw'r Cynllun wedi'i baratoi yn unol â'r gofynion cyfreithiol a gweithdrefnol perthnasol, a phenderfynu a yw'n gadarn. Yn unol ag Adran 8 o Lawlyfr Cynlluniau Datblygu Lleol Llywodraeth Cymru - Argraffiad 3 (Mawrth 2020) , byddwn yn asesu cadernid y Cynllun mewn perthynas â'r tri phrawf canlynol:
  - **Prawf 1: A yw'r cynllun yn ffitio?** (h.y. a yw'n glir bod y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) yn gyson â chynlluniau eraill?)
  - **Prawf 2: A yw'r cynllun yn briodol?** (h.y. a yw'r cynllun yn briodol i'r ardal yng ngoleuni'r dystiolaeth?)
  - **Prawf 3: A fydd y cynllun yn cyflawni?** (h.y. a yw'n debygol o fod yn effeithiol?)
- 4.3. Man cychwyn yr archwiliad yw bod y Cyngor wedi cyflwyno Cynllun y mae o'r farn ei fod yn gadarn ac yn cydymffurfio â'r gyfraith. Rhaid i'r rheiny sydd am weld newidiadau ddangos pam nad yw'r Cynllun yn bodloni'r meini prawf hyn.
- 4.4. Ceir dwy ffordd y gellir gwneud newidiadau sylweddol i'r cynllun a gyflwynwyd. Y rhain yw:

- Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd, a gynigiwyd gan y Cyngor ac a argymhellwyd gan yr Arolygydd; a
  - Newidiadau'r Arolygydd, a gynigir gan yr Arolygydd ac sy'n rhwymol ar y Cyngor.
- 4.5. Gallwn ond argymhell Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd neu Newidiadau rhwymol yr Arolygydd os ydynt yn angenrheidiol i ddatrys problemau a fyddai fel arall yn golygu bod y cynllun a gyflwynwyd yn ansad neu heb fod yn cydymffurfio â'r gyfraith. Mae Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd a Newidiadau'r Arolygydd yn newid y Cynllun neu ei bolisiâu yn sylweddol ac fel arfer maent yn destun ymgynghoriad yn dilyn y gwrandawiadau.
- 4.6. Yn ogystal, gall y Cyngor ddewis cynnig mân newidiadau, er enghraifft cywiro gwallau neu wneud diweddariadau ffeithiol. Nid yw newidiadau o'r fath yn effeithio'n sylweddol ar y Cynllun ac nid ydynt yn destun archwiliad.
- 4.7. At ddibenion cyflawnrwydd, atodir amserlen ddangosol yn Atodiad 1 sy'n amlinellu'r camau allweddol yn y broses archwilio.

## 5 Y SESIYNAU GWRANDAWIAD

### *Fformat*

- 5.1 Mae'r rhaglen wrandawiadau ddrafft yn gosod trefn y gwrandawiadau ac yn nodi'r cyfranogwyr ar gyfer pob sesiwn. Mae hyn ar ffurf ddrafft ar hyn o bryd a gall newid. Cyhoeddir y fersiwn derfynol cyn y gwrandawiadau a bydd yn cadarnhau'r rhestr o gyfranogwyr ar gyfer pob sesiwn. Rhowch wybod i'r Swyddog Rhaglen erbyn **12 canol dydd ar 31 Gorffennaf 2024** p'un a ydych yn bwriadu cymryd rhan mewn gwrandawriad neu a oes angen gwneud unrhyw addasiadau i'w gwneud yn haws i chi fod yn bresennol.
- 5.2 Bydd y Cyngor yn hysbysebu dechrau'r sesiynau gwrandawriad o leiaf 6 wythnos ymlaen llaw. Rhagwelir y byddant yn dechrau ar **15 Hydref 2024**. Bydd y dyddiadau ar gyfer y sesiynau gwrandawriad yn cael eu nodi yn y rhaglen wrandawiadau ddrafft ac yn yr amserlen wrandawiadau ddrafft a fydd ar wefan yr archwiliad ac yn cael eu diweddarau yn ôl yr angen. Nodir amserlen ddrafft gychwynnol ar gyfer y sesiynau gwrandawriad yn Atodiad 2.
- 5.3 Bydd y sesiynau gwrandawriad fel arfer yn cael eu cynnal drwy'r dydd ar ddydd Mawrth, dydd Mercher a dydd Iau. Oni nodir fel arall, bydd pob sesiwn gwrandawriad yn dechrau am 10:00am a 14:00pm ac yn gorffen tua 17:00pm. Fel arfer bydd cinio rhwng 13:00pm a 14:00pm. Bydd yna egwylliau byr ganol y bore a chanol y prynhawn.
- 5.4 Bydd y sesiynau gwrandawriad yn rhai digidol: hynny yw, byddant yn cael eu cynnal ar Microsoft Teams gyda'r holl gyfranogwyr, gan gynnwys yr Arolygydd, y Swyddog Rhaglen, tîm y Cyngor, ac arsylwyr yn mewngofnodi trwy gyfrifiaduron. Byddant hefyd yn agored i arsylwyr yn yr un modd â

digwyddiadau wyneb yn wyneb. Bydd mwy o wybodaeth a chyfarwyddiadau ar sut i ymuno â'r gwrandawiadau neu eu gwyllo yn cael ei darparu yn agosach at yr amser. Os hoffech chi gymryd rhan (a'ch bod yn bodloni'r meini prawf i wneud hynny) neu arsylwi, ond nad oes gennych fynediad at gyfrifiadur addas neu ffôn clyfar, cysylltwch â'r Swyddog Rhaglen er mwyn trafod eich anghenion.

- 5.5 Cofiwch fod digwyddiadau digidol yn rhywbeth newydd, ac efallai na fydd pobl yn gyfarwydd â'r broses a'r dechnoleg. Byddwn felly yn gwerthfawrogi eich amynedd a'ch cydweithrediad yn ystod y gwrandawiadau. Bydd y rhain fodd bynnag yn gweithredu yn debyg iawn i'r ffordd arferol, er y bydd angen i rai pethau fod yn wahanol wrth gwrs i sicrhau eu bod yn rhedeg yn ddiraffferth. Gallwch fod yn hyderus y bydd pob cyfranogwr yn cael cyfle i fynd i'r afael â'r pwyntiau a godwyd gan yr Arolygwyr.
- 5.5 Gan y bydd pawb yn gweithio o sgriniau, a all fod yn ddwys ac yn flinedig, bydd yr Arolygwyr yn sicrhau bod yna egwylliau rheolaidd. Mae'r rhain yn debygol o fod bob rhyw 90 munud.
- 5.6 Yn ystod y digwyddiadau, a fydddech cystal â chadw eich camera a'ch meicroffon wedi'u diffodd nes eich bod yn cael eich gwahodd i siarad. Mae platform Microsoft Teams yn darparu 'swyddogaeth codi llaw', trwy'r hon y gallwch ddangos eich bod am siarad. Nid yw arsylwyr mewn gwrandawiadau yn gallu siarad a dylent sicrhau bod eu meicroffonau a'u camerâu wedi'u diffodd trwy gydol y sesiwn. Allech chi hefyd sicrhau, os oes gennych ffôn gerllaw, ei fod yn cael ei dawelu neu ei ddargyfeirio.
- 5.7 Gan fod hwn yn fformat newydd, mae'n bosibl y gall materion annisgwyl godi yn ystod y digwyddiadau. Os bydd unrhyw un o'r cyfranogwyr yn cael unrhyw broblemau TG megis colli eu cysylltiad â'r digwyddiad, yn y lle cyntaf byddwn yn gohirio, am 5 munud i ddechrau. Yn y cyfnod hwnnw dylech geisio mewngofnodi yn ôl yn syth, fel y gwnaethoch cyn i'r digwyddiad ddechrau.
- 5.8 Os yw'r broblem yn parhau, yna gellir gohirio am gyfnod hirach ac os nad oes modd ei datrys, efallai y bydd angen i ni ohirio tan ddiwrnod arall. A fydddech cystal â chadw rhif ffôn y Swyddog Rhaglen wrth law yn ystod digwyddiadau digidol fel y gallwch roi gwybod iddi os ydych yn cael problemau.
- 5.9 Bydd y gwrandawiadau ar ffurf trafodaethau bwrdd crwn strwythuredig a fydd yn cael eu harwain gennym ni. Ni fydd unrhyw gyflwyniad ffurfiol o dystiolaeth na chroesholi. Bydd bargyfreithwyr a chyfreithwyr, os ydynt yn bresennol, yn cael eu trin fel rhan o'r sefydliad neu'r tîm perthnasol.
- 5.10 Prif bwrpas y gwrandawiadau yw fy ngalluogi i gael y wybodaeth sydd ei hangen arnom i benderfynu ar y materion sydd ger fy mron. **Cyhoeddir rhestr o faterion a chwestiynau manwl ar wefan yr archwiliad ar neu cyn 23 Awst 2024.** Bydd y rhain yn ffurfio'r agenda ar gyfer pob sesiwn

gwrandawriad, yn ogystal â gosod sail ar gyfer unrhyw ddatganiadau ysgrifenedig pellach a geisir gan gyfranogwyr y gwrandawriad.

- 5.11 Ar ddiwedd pob gwrandawriad gallwn gadarnhau gyda'r Cyngor unrhyw gamau y mae angen iddo eu cymryd mewn ymateb i faterion a godwyd yn ystod y drafodaeth. Bydd unrhyw 'bwyntiau gweithredu' y cytunwyd arnynt yn cael eu cyhoeddi yn Llyfrgell yr Archwiliad.
- 5.12 Sylwer nad oes unrhyw drafodaeth ynghylch anweithiau/dyraniadau safle amgen wedi'i rhaglennu ar hyn o bryd. Bydd y rheiny sy'n hyrwyddo safleoedd o'r fath yn gymwys i gymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch strategaeth y CDLI. Os penderfynwn fod angen dyrannu rhagor o safleoedd, gellir gwahodd cynrychiolwyr perthnasol i gyflwyno sylwadau ar lafar mewn gwrandawriad diweddarach.

### *Cyfranogi*

- 5.13 Mae'r sesiynau ar agor i unrhyw un eu harsylwi, gan gynnwys y rheiny sy'n cefnogi'r Cynllun. Dim ond y rheiny sydd wedi cyflwyno sylwadau o fewn y cyfnodau amser penodedig ac sy'n ceisio newidiadau i'r Cynllun mewn perthynas â'r materion sydd i'w trafod sydd â'r hawl i gymryd rhan yn y gwrandawriadau. Fodd bynnag, efallai y byddwn hefyd yn gwahodd cyfranogwyr ychwanegol os ystyriwn fod angen hynny.
- 5.14 Byddwn yn rhoi'r un pwysigrwydd i dystiolaeth lafar a thystiolaeth ysgrifenedig. Felly nid oes angen cymryd rhan mewn gwrandawriad oni bai eich bod yn bwriadu ymhelaethu ar bwyntiau a wnaed eisoes yn ysgrifenedig neu os ydych yn dymuno ymateb i bwyntiau a wneir gan eraill. Bydd cyfranogwyr sydd wedi nodi dymuniad i gael eu clywed yn cael y cyfle i wneud hynny, ond byddwn yn gwahodd rhagor o dystiolaeth lafar neu ysgrifenedig yn benodol dim ond pan ystyriwn fod angen hynny.
- 5.15 Byddwn yn disgwyl i gyfranogwyr mewn gwrandawriadau fod wedi ymgyfarwyddo â'r dogfennau perthnasol sy'n ymwneud â'r materion i'w trafod, gan gynnwys Dogfennau Cyflwyno'r Cyngor ac unrhyw ddatganiadau ysgrifenedig pellach. Byddem hefyd yn annog cyfranogwyr i edrych ar Lawlyfr Cynlluniau Datblygu Lleol Llywodraeth Cymru a Chanllawiau Gweithdrefnol Archwiliadau Cynlluniau Datblygu Lleol PEDW cyn y gwrandawriadau.
- 5.16 Croesewir cyfranogiad yn y Gymraeg mewn gwrandawriadau. Ble mae un neu fwy o gyfranogwyr mewn gwrandawriad wedi nodi bod yn well ganddynt gyfathrebu yn y Gymraeg, bydd cyfleusterau cyfieithu yn cael eu trefnu gan y Cyngor. Er mwyn atal gohirio'n ddiangen, bydd y Swyddog Rhaglen yn ceisio cadarnhau dewis iaith y cyfranogwyr cyn cynnal y sesiynau gwrandawriad.

## *Datganiadau Ysgrifenedig Pellach*

- 5.17 Bydd y materion a'r cwestiynau a gyhoeddir yn llywio'r trafodaethau mewn gwrandawriadau. Gan y dylai cyfranogwyr eisoes fod wedi nodi eu hachosion llawn yn eu sylwadau gwreiddiol, fel rheol ni ddylai fod angen gwneud datganiadau ysgrifenedig pellach. Fodd bynnag, os gwneir datganiadau ysgrifenedig pellach, dylai'r rhain:
- nodi rhif adnabod y Cynrychiolwr a rhif y sylw;
  - bod yn gyfyngedig i'r materion a'r cwestiynau a gyhoeddwyd a bod naill ai'n berthnasol i'w sylw gwreiddiol neu fod yn ymwneud â materion perthnasol newydd sydd wedi codi ers i'r sylw gwreiddiol gael ei wneud; a
  - pheidio ag ailadrodd yr hyn sydd yn y sylwadau gwreiddiol.
- 5.18. Gan fod yr holl ddogfennau archwilio a chyflwyno ar gael ar y rhyngrwyd, ni ddylai cyfranogwyr atodi darnau o'r dogfennau hyn i unrhyw ddatganiadau. Yn hytrach, dylai datganiadau sy'n cyfeirio at unrhyw un o'r dogfennau hyn gynnwys y cyfeirnod perthnasol a rhif y dudalen neu'r paragraff.
- 5.19. Dylai datganiadau ysgrifenedig pellach gydymffurfio â'r canllawiau canlynol:
- Dylid cyflwyno datganiad ar wahân ar gyfer pob gwrandawriad.
  - Dylai datganiadau fod yn glir, yn gryno a heb fod yn fwy na 3,000 o eiriau o hyd ar gyfer pob mater. Ansawdd y rhesymeg sy'n bwysig, nid maint y dogfennau.
  - Nid yw atodiadau wedi'u cynnwys yn y terfyn geiriau, ond dim ond os ydynt yn hanfodol y dylid cyflwyno'r rhain, gan gyfeirio at y rhannau o'r atodiadau hynny y dibynnir arnynt.
  - Dylid gwneud datganiadau ar ffurf A4 lle bo modd. Ar gyfer copïau caled, dylid plygu dalennau A3 i A4.
- 5.20.1 Rhaid i ddatganiadau ddod i law erbyn y dyddiad cau a bennir (**12 canol dydd ar 24 Medi 2024**). Mae'n annhebygol y bydd cyflwyniadau hwyr yn cael eu derbyn. Efallai y caiff unrhyw ddatganiadau sy'n rhy hir neu sy'n cynnwys deunydd amherthnasol neu ailadroddus eu dychwelyd.
- 5.20.2 Yn wahanol i gyfranogwyr eraill, mae'n ofynnol i'r Cyngor ymateb i bob mater a chwestiwn ac felly nid yw'r terfyn o 3,000 gair yn berthnasol iddynt hwy. Fodd bynnag, dylai unrhyw ddatganiadau fod mor gryno â phosibl. Dylid defnyddio cyfeiriadau at dystiolaeth bresennol lle bynnag y bo modd i osgoi ailadrodd.
- 5.20.3 Dylid anfon fersiwn electronig a 2 gopi papur o unrhyw ddatganiadau ysgrifenedig pellach, gan gynnwys rhai'r Cyngor, i'r Swyddog Rhaglen a dylent gyrraedd erbyn **12 hanner dydd ar 24 Medi 2024**.

## 6 DATGANIADAU TIR CYFFREDIN

- 6.1 Dylid cyflwyno unrhyw ddatganiadau tir cyffredin rhwng y Cyngor a'r cynrychiolwyr, neu rhwng unrhyw gynrychiolwyr eraill, sy'n cael eu paratoi i gynorthwyo'r archwiliad i'r Swyddog Rhaglen cyn gynted ag y cânt eu gwneud a dylent gyrraedd **heb fod yn hwyrach na 12 hanner dydd ar 24 Medi 2024**. Dylai hyn gynnwys fersiwn electronig a 2 gopi papur.

## 7 YMWELIADAU SAFLE

- 7.1 I'r graddau y credwn fod hynny'n angenrheidiol er mwyn asesu cadernid y Cynllun, byddwn yn ymweld â safleoedd ac ardaloedd perthnasol cyn, yn ystod neu ar ôl y gwrandawiadau. Byddwn yn gwneud hyn ar ein pen ein hunain oni bai bod angen mynediad i dir preifat.

## 8 CAU'R ARCHWILIAD

- 8.1 Ar ôl y gwrandawiadau, bydd yr archwiliad yn parhau ar agor nes bod fy adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor. Ni dderbynnir rhagor o sylwadau neu dystiolaeth yn ystod y cyfnod hwn oni bai ein bod wedi gofyn yn benodol am hyn.

## 9 GWYBODAETH YCHWANEGOL

- 9.1 Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am baratoi ac archwilio Cynlluniau Datblygu Lleol gan ddefnyddio'r dolenni canlynol:
- Gwybodaeth Llywodraeth Cymru am Gynlluniau Datblygu: [Cynlluniau datblygu | Is-bwnc | LLYW.CYMRU](#)
  - Polisi a chanllawiau cenedlaethol Llywodraeth Cymru: [Polisi a chanllawiau cynllunio: polisi cenedlaethol | Is-bwnc | LLYW.CYMRU](#)
  - Canllawiau Gweithdrefnol Archwiliadau Cynlluniau Datblygu Lleol PEDW: [Archwiliadau cynlluniau datblygu lleol : canllawiau gweithdrefnol | LLYW.CYMRU](#)
  - Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, Rhan 6, Adrannau 62-72: [Planning and Compulsory Purchase Act 2004 \(legislation.gov.uk\)](#)
  - Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005: [The Town and Country Planning \(Local Development Plan\) \(Wales\) Regulations 2005 \(legislation.gov.uk\)](#)

*Nicola Gulley ac Ian Stevens*  
AROLYGWYR



## ATODIAD 1 - AMSERLEN DDANGOSOL YR ARCHWILIAD

AMSERLEN DDANGOSOL YR ARCHWILIAD	
Tasg Allweddol	Dyddiad
Y Cyngor yn cyflwyno'r CDLI i gael ei Archwilio	10 Mehefin 2024
Cyhoeddi'r Nodyn Cyfarwyddyd ar gyfer cymryd rhan yn yr Archwiliad	09 Gorffennaf 2024
Cyhoeddi'r Rhestr o Faterion ar gyfer y Sesiwn Gwrandawriad	23 Awst 2024
Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno datganiadau ysgrifenedig sy'n ymateb i faterion i'w harchwilio	24 Medi 2024
Sesiynau gwrandawriad yn dechrau	15 Hydref 2024
Sesiynau gwrandawriad yn cau	14 Tachwedd 2024
[Os oes angen] Y Cyngor yn cyhoeddi'r newidiadau yn sgil materion a godwyd ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus 6 wythnos o hyd	<b>I'w gadarnhau</b>
Y Cyngor i gyflwyno Adroddiad Ymgynghori wedi'i ddiweddarau	<b>I'w gadarnhau</b>
Cyflwyno Adroddiad Canfyddiadau'r Arolygydd	09 Mai 2025

## ATODIAD 2 - AMSERLEN DDRAFFT Y SESIYNAU GWRANDAWIAD

SESIYNAU GWRANDAWIAD	MATERION
<b>WYTHNOS 1</b>	
<p><b>Sesiwn Gwrandawiad 1 –</b> Dydd Mawrth, 15 Hydref 2024 rhwng 10.00 a 17:00</p> <p>Gwrandawiad Rhithwir</p>	<p><b>Agoriad, Paratoi'r Cynllun a Fframwaith Strategol</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Y broses o lunio'r cynllun</li> <li>• Cydymffurfio â'r gofynion deddfwriaethol</li> <li>• Gweledigaeth y CDLI</li> <li>• Amcanion Strategol</li> <li>• Strategaeth Ofodol</li> <li>• Polisi SP1: Twf Strategol</li> <li>• Polisi SD1: Terfynau Datblygu</li> <li>• Polisi SG1: Adfywio a Safleoedd Defnydd Cymysg</li> <li>• Polisi SG2: Safleoedd wrth Gefn</li> <li>• Polisi SP2: Adwerthu a Chanol Trefi</li> <li>• Polisi SP3: Dosbarthu Cynaliadwy – Fframwaith Aneddiadau</li> <li>• Polisi SP8: Y Gymraeg a Diwylliant Cymru</li> <li>• Polisi SP12: Creu Lleoedd, Cynaliadwyedd a Dylunio o Ansawdd Uchel</li> <li>• Polisi PSD1: Atebion Dylunio Effeithiol: Cynaliadwyedd a Chreu Lleoedd</li> </ul>
<p><b>Sesiwn Gwrandawiad 2 –</b> Dydd Mercher, 16 Hydref 2024 rhwng 10.00 a 17:00</p> <p>Gwrandawiad Rhithwir</p>	<p><b>Pobl a Lleoedd Ffyniannus – Tai</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Polisi SP4: Dull Cynaliadwy o Ddarparu Cartref Newydd</li> <li>• Polisi HOM1: Dyraniadau Tai</li> <li>• Polisi HOM3: Cartrefi mewn Pentrefi Gwledig</li> <li>• Polisi HOM4 - Cartrefi mewn Aneddiadau Gwledig Anniffiniedig</li> <li>• Polisi HOM7: Adnewyddu Anheddau Diffaith neu Wedi'u Gadael</li> <li>• Polisi RD1: Anheddau mewn Cefn Gwlad Agored</li> <li>• Polisi RD2: Addasu ac Ailddefnyddio Adeiladau Gwledig at Ddefnydd Preswyl</li> <li>• Polisi RD3: Arallgyfeirio ar Ffermydd</li> <li>• Polisi RD4: Addasu ac Ailddefnyddio Adeiladau Gwledig at Ddefnydd Amhreswyl</li> </ul>
<p><b>Sesiwn Gwrandawiad 3 –</b> Dydd Iau, 17 Hydref 2024 rhwng 10.00 a 17:00</p> <p>Gwrandawiad Rhithwir</p>	<p><b>Pobl a Lleoedd Ffyniannus – Tai Fforddiadwy a Darpariaeth Sipsiwn a Theithwyr</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Polisi SP5: Tai Fforddiadwy</li> <li>• Polisi AHOM1: Darparu Tai Fforddiadwy</li> <li>• Polisi AHOM2: Tai Fforddiadwy - Safleoedd Eithriadau</li> <li>• Polisi SP10: Darpariaeth Sipsiwn a Theithwyr</li> </ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>Polisi GTP1: Llety Sipsiwn a Theithwyr</li> </ul>
<b>WYTHNOS 2</b>	
<p><b>Sesiwn Gwrandawriad 4 –</b> Dydd Mawrth, 22 Hydref 2024 rhwng 10.00 a 17:00</p> <p>Gwrandawriad Rhithwir</p>	<p><b>Pobl a Lleoedd Llewyrchus</b> – <b>Cyflogaeth a'r Economi Ymwelwyr</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Polisi SP7: Cyflogaeth a'r Economi</li> <li>Polisi EME1: Cyflogaeth - Diogelu Safleoedd Cyflogaeth</li> <li>Polisi EME3: Cynigion Cyflogaeth ar Safleoedd Dyranedig</li> <li>Polisi SP11: Yr Economi Ymwelwyr</li> <li>Polisi VE2: Llety Gwyliau</li> <li>Polisi VE3: Carafanau Teithiol, Gwersylla a Safleoedd Gwersylla Eraill nad ydynt yn barhaol</li> <li>Polisi VE4: Safleoedd Carafanau Sefydlog a Chalets a Llety Gwersylla Amgen Parhaol</li> </ul>
<p><b>Sesiwn Gwrandawriad 5 –</b> Dydd Mercher, 23 Hydref 2024 rhwng 10.00 a 17:00</p> <p>Gwrandawriad Rhithwir</p>	<p><b>Arferion Iach</b> – <b>Yr Amgylchedd Naturiol, Adeiledig a Hanesyddol</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Polisi SP14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol</li> <li>Polisi SP 15: Diogelu a Gwella'r Amgylchedd Adeiledig a Hanesyddol</li> <li>Polisi BHE2: Cymeriad y Dirwedd</li> <li>Polisi PSD7: Diogelu Mannau Agored</li> <li>Polisi PSD8: Darparu Mannau Agored Newydd</li> </ul>
<p><b>Sesiwn Gwrandawriad 6 –</b> Dydd Iau, 24 Hydref 2024 rhwng 10.00 a 17:00</p> <p>Gwrandawriad Rhithwir</p>	<p><b>Cysylltiadau Cryf</b> – <b>Newid yn yr Hinsawdd, Ynni Adnewyddadwy a Thrafnidiaeth</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Polisi SP 16: Newid yn yr Hinsawdd</li> <li>Polisi CCH1 - Ynni Adnewyddadwy o fewn Ardaloedd a Aseswyd Ymlaen Llaw ac Ardaloedd Chwilio Lleol</li> <li>Polisi CCH2: Ynni Adnewyddadwy y tu allan i Ardaloedd a Aseswyd o flaen llaw ac Ardaloedd Chwilio Lleol</li> <li>Polisi CCH7: Newid yn yr Hinsawdd – Fforestydd, Coetiroedd, a Phlannu Coed</li> <li>Polisi SP 17: Trafnidiaeth a Hygyrchedd</li> </ul>
<b>WYTHNOS 3</b>	
<p><b>Sesiwn Gwrandawriad 7 –</b> Dydd Mawrth, 5 Tachwedd 2024 rhwng 10.00 a 17:00</p> <p>Gwrandawriad Rhithwir</p>	<p><b>Pobl a Lleoedd Ffyniannus - Dyraniadau Safle (Clwstr 1 – Caerfyrddin)</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>PrC1/h4 – Tir oddi ar Barc y Delyn</li> <li>PrC1/MU1 – Gorllewin Caerfyrddin</li> <li>PrC1/MU2 – Pibwr-lwyd</li> <li>SeC1/h1 – Lôn Pisgwydd</li> <li>SeC1/h4 – Cae Canfas, Heol Llanelli</li> <li>SuV1/h1 – Gerllaw Fron Heulog</li> <li>SuV4/h1 – Tir ar fferm Troed Rhiw</li> </ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• SuV12/h1 – Gerllaw Gwyn Villa</li> <li>• SuV20/h1 – Tir ger Fferm Llwynhenri</li> </ul>
<p><b>Sesiwn Gwrandawriad 8 –</b> Dydd Mercher, 6 Tachwedd 2024 rhwng 10.00 a 17:00</p> <p><b>Gwrandawriad Rhithwir</b></p>	<p><b>Pobl a Lleoedd Ffyniannus - Dyraniadau Safle (Clwstwr 2 – Llanelli)</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• PrC2/GT1 – Tir ym Mhenyfan, Trostre, Llanelli</li> <li>• PrC2/h1 – Beech Grove, y Pwll</li> <li>• PrC2/h4 – Doc y Gogledd</li> <li>• PrC2/h16 - Ynys Las, Llwynhendy</li> <li>• PrC2/h20 – Harddfafan</li> <li>• PrC2/h22 - Cwm y Nant, Dafen</li> <li>• PrC2/h23 – Porth Dwyreiniol Dafen</li> <li>• SeC4/h1 – Fferm Gwdig</li> <li>• SeC6/h2 – Tir rhwng Heol Clayton a Dwyrain Heol Bronallt</li> <li>• SeC7/h1 – Fferm Bocs</li> <li>• SeC7/h3 - Golwg Yr Afon</li> <li>• SeC8/h2 – Cae Linda, Trimsaran</li> <li>• SeC8/h3 - Golwg Gwendraeth</li> <li>• SuV23/h1 – Clos y Parc</li> </ul>
<p><b>Sesiwn Gwrandawriad 9 –</b> Dydd Iau, 7 Tachwedd 2024 rhwng 10.00 a 17:00</p> <p>Gwrandawriad Rhithwir</p>	<p><b>Pobl a Lleoedd Ffyniannus - Dyraniadau Safle (Clwstwr 3 - Rhydaman gan gynnwys y Betws a Phen-y-banc)</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• PrC3/h4 – Fferm Tirychen</li> <li>• PrC3/h6 – Tir sy'n ffinio â Maes Ifan, Ffordd Maescwarrau</li> <li>• PrC3/h14 – Nantydderwen</li> <li>• PrC3/h19 – Tir oddi ar Lys y Nant</li> <li>• PrC3/h22 – Gerllaw Pant-y-Blodau</li> <li>• PrC3/h28 – Tir ar safle Ffatri rhwng 22 a 28 Heol Bethesda</li> <li>• PRC3/h36 – Glofa'r Betws</li> <li>• PrC3/h37 – Clos Felingoed</li> <li>• PrC3/E1 – Dwyrain Cross Hands</li> <li>• PrC3/E2 – Parc Bwyd Gorllewin Cross Hands</li> <li>• PrC3/E3(i) – Heol Stanllyd (Gorllewin)</li> <li>• PrC3/MU1 - Gwaith Brics Emlyn</li> <li>• SuV28/h1 – Ger Coed y Cadno</li> </ul>
<b>WYTHNOS 4</b>	
<p><b>Sesiwn Gwrandawriad 10 –</b> Dydd Mawrth, 12 Tachwedd 2024 rhwng 10.00 a 17:00</p> <p>Gwrandawriad Rhithwir</p>	<p><b>Pobl a Lleoedd Ffyniannus - Dyraniadau Safle (Clwstwr 4 – Castellnewydd Emlyn)</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• SeC12/h1 – Trem y Ddôl</li> <li>• SeC12/h3 – Tir i tu cefn i Dolcoed</li> <li>• Sec13/h1 – Gerllaw Y Neuadd</li> <li>• SeC14/h1 – Garej Blossom</li> </ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• SeC14/h2 – Tir gerllaw Maescader</li> <li>• SuV38/h1 – Maes y Bryn</li> <li>• SuV39/h1 – Gerllaw Yr Hendre</li> <li>• SuV41/h2 – Cilgwyn Bach</li> </ul>
<p><b>Sesiwn Gwrandawriad 11 –</b> Dydd Mercher, 13 Tachwedd 2024 rhwng 10.00 a 17:00</p> <p>Gwrandawriad Rhithwir</p>	<p><b>Pobl a Lleoedd Ffyniannus - Dyraniadau Safle (Clwstwr 5 – Llanymddyfri)</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• SeC16/h1 – Chwarter Gogleddol Llandeilo</li> <li>• SeC16/MU1 – Beechwood</li> <li>• SeC17/h1 – Tir gyferbyn ag Ysgol Gynradd Gymunedol Llangadog</li> </ul>
<p><b>Sesiwn Gwrandawriad 12 –</b> Dydd Iau, 14 Tachwedd 2024 rhwng 10.00 a 17:00</p> <p>Gwrandawriad Rhithwir</p>	<p><b>Pobl a Lleoedd Ffyniannus - Dyraniadau Safle (Clwstwr 6 – Sanclêr a Phwll-trap)</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• SeC18/h1 – Ger Teras Britania</li> <li>• SeC18/h3 – Tir ger Cefn Maes</li> <li>• SeC19/h1 - Tir yn Park View, Trefechan</li> <li>• SeC20/MU1 – Parc Gwyliau Talacharn</li> <li>• SuV60/h1 – Tir yn College Bach</li> <li>• SuV61/h1 – Tir ar Fferm Nieuport</li> <li>• SuV63/h1 – Tir yn Woodend</li> </ul>

- 1.2 Bydd pob sesiwn Gwrandawriad yn dechrau am 10:00am a 2:00pm bob dydd, gydag egwyl ginio tua 1.00pm, ac yn gorffen tua 5.00pm. Bydd diwrnodau wrth gefn ond yn cael eu defnyddio pan fydd yr Arolygydd yn ystyried ei bod yn hwylus gwneud hynny.
- 1.3 **Dim ond os yw'r Arolygydd yn ystyried bod angen gwneud hynny y cynhelir sesiynau gwrandawriadau i drafod Safleoedd Amgen.**

## **ATODIAD 3 – CWESTIYNAU CYFFREDIN**

### **Ble gallaf ddod o hyd i ddogfennau'r archwiliad?**

Gellir dod o hyd i ddogfennau'r archwiliad, dogfennau a gyflwynir a'r rhaglen wrandawiadau ar wefan yr Archwiliad. Os hoffech weld copïau caled o unrhyw un o'r dogfennau hyn, cysylltwch â'r Swyddog Rhaglen.

### **Beth os ydw i eisïau cymryd rhan mewn gwrandawriad rhithwir ond ddim eisïau ymddangos ar y sgrîn?**

Mae croeso i gyfranogwyr sy'n dymuno cymryd rhan mewn sesiwn gwrandawriad ond nad ydynt eisïau ymddangos ar y sgrîn adael eu camera wedi ei ddiffodd.

### **A alla i gymryd rhan yn y sesiynau gwrandawriad er i mi ddweud yn wreiddiol nad oeddwn am gymryd rhan?**

Gallwch. Cyhyd â bod gennych sylw a gyflwynwyd yn briodol sy'n gysylltiedig â'r pwnc a drafodir yn y sesiwn gwrandawriad yr hoffech ymuno â hi. Os felly, cysylltwch â'r Swyddog Rhaglen a fydd yn gwneud y trefniadau angenrheidiol er mwyn i chi ymuno â'r sesiwn.

### **A alla i gymryd rhan yn y sesiynau gwrandawriad os nad ydw i wedi cyflwyno sylw?**

Na allwch. Yn gyffredinol, dim ond unigolion neu sefydliadau sydd wedi cyflwyno sylw yn briodol a all gymryd rhan mewn sesiynau gwrandawriad. Fodd bynnag, mae croeso i chi wylïo'r sesiwn os dymunwch.

### **Oes angen i mi roi datganiad?**

Nac oes. Nid oes angen i chi roi datganiad oni bai eich bod yn benodol yn dymuno gwneud hynny, gallwch ddibynnu ar eich sylw(adau) presennol.

### **A allaf wylïo'r sesiynau gwrandawriad?**

Gallwch. Gall aelodau'r cyhoedd wylïo'r sesiynau gwrandawriad. Cysylltwch â'r Swyddog Rhaglen a fydd yn gallu rhoi cyngor i chi ynghylch sut a phryd y gallwch wylïo'r sesiynau.